# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 28-05-10

**Presennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr Peter Read, W. Gareth Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth, (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd Amgylchedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod:**

**Ymgeisydd:** Mr David Williams (cynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd) a Mr G. Lovell (perchennog Neuadd y Farchnad)

**Cynrychiolwyr yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu) a'r Rhingyll Steve Williams

**Cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:** Y Mri Alan Williams a Brian Williams

**Gwrthwynebwyr:** Mrs Rita Geary, Mr Brian Geary, Mrs Lorna Gannon, Mr John Tyrrell, Mrs Gilly Harradance a Mr Jonathan Smith (cyfreithiwr ar ran Cofi Roc)

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – NEUADD Y FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar ran Neuadd y Farchnad, Stryd y Plas, Caernarfon am drwydded eiddo i ganiatau dramau, ffilmiau, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio a dawnsio rhwng 09.00 a 24.00, bocsio neu wreslo rhwng 09.00 a 23.00, cyflenwi bwyd poeth rhwng 23.00 a 01.00, cyflenwi alcohol rhwng 09.00 a 01.00, gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 08.00 a 01.30. Bydd yr oriau hyn yn berthnasol i bob diwrnod o'r wythnos.

Nododd y derbyniwyd ymateb gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Adran Iechyd Amgylchedd yn cynnig sylwadau/amodau a nifer o lythyrau'n gwrthwynebu'r cais. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cais gan Gyngor Tref Caernarfon na'r aelodau lleol

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

1. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

2. Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Rhoddwyd gwahoddiad i bob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

4. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

5. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

6. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

7. Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu gan bod hwn yn gais o'r newydd, nid oedd ganddo unrhyw dystiolaeth uniongyrchol yn erbyn yr eiddo i wrthwynebu'r cais ond awgrymwyd y dylai amodau gael eu hatodi i'r drwydded pe caniateir. Gan nad oes gan yr eiddo drwydded gyfredol, nid oedd tystiolaeth berthnasol i'r eiddo o drosedd ac anrhefn Tynnodd sylw at ddau achlysur yn ystod 2009 lle y cyflwynodd yr eiddo gais am rybudd digwyddiad tros dro ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn deillio o'r digwyddiadau hyn. Cynhaliodd gyfarfod gyda chynrychiolydd yr ymgeisydd a chadarnhaodd nad oedd bwriad i agor clwb nos ac iddynt gytuno i'r awgrymiadau ynglyn â TCC a rhybudd ymlaen llaw o unrhyw ddigwyddiad a faint o oruchwylwyr drysau i ddigwyddiadau o'r fath.

Hysbysodd Alan Williams, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru iddo gael trafodaethau gyda'r ymgeisydd ond nid oedd yn fodlon gyda'r cais gan nad oedd asesiad risg tân addas a digonol ar gyfer defnydd yr eiddo. Er bod asesiad perthnasol i ddefnydd presennol yr eiddo, nid oedd un ar gyfer y defnydd a amlinellwyd yn y cais.

Adroddodd y Swyddog Iechyd Amgylchedd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais ond pe byddai trwydded yn cael ei ganiatau, byddai angen cynnwys amodau mewn perthynas â sŵn a dirgryniad, golau ac arogleuon a allai greu niwsans. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhaodd os na fyddai'n bosibl cario allan waith atal sŵn, byddai'n angenrheidiol i'r ymgeisydd sicrhau na fyddai'r sŵn yn cyrraedd lefel fel y byddai'n glywadwy oddi allan a chreu niwsans.

Tynnwyd sylw gan gyfreithiwr ar ran Cofi Roc at y ffaith nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod heddiw nac yn y cyfarfod y bu'n ofynnol ei ohirio ym mis Mawrth 2010 a gofynnodd i'r aelodau os ydynt yn fodlon parhau â'r achos yn absenoldeb yr ymgeisydd. Mewn ymateb, hysbysodd partner yr ymgeisydd nad oedd yn bosibl i'r ymgeisydd fod yn bresennol oherwydd gwaeledd ac yn wyneb hynny gofynnodd iddo ef ei chynrychioli. Hysbysodd y Swyddog Priodoldeb ei bod yn anffodus nad yw'r ymgeisydd yn gallu bod yn bresennol ond mae'r rheoliadau yn caniatau i ymgeisydd gael ei chynrychioli, ac yn wyneb hynny gan bod cynrychiolydd yr ymgeisydd yn bresennol ni ellir gwrthod ystyried y cais. Gofynnodd y cyfreithiwr ar ran Cofi Roc ymhellach os oedd y Cyngor wedi cael rhybudd ymlaen llaw gan yr ymgeisydd ei bod yn cael ei chynrychioli yn y cyfarfod. Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd yn bersonol yn ymwybodol o unrhyw rybudd gan yr ymgeisydd y byddai'n cael ei chynrychioli yn y cyfarfod. Cyfeiriodd partner yr ymgeisydd at y ffaith iddo hysbysu'r Adran Drwyddedu ar lafar rhai dyddiau ynghynt mai ef fyddai'n ei chynrychioli yn y cyfarfod. Cadarnhaodd cyfreithiwr ar ran Cofi Roc nad oedd ganddo wrthwynebiad i barhau gyda'r gwrandawiad.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol i gyd ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol:

- Pe caniateir y drwydded, dylid cyfyngu yfed alcohol i'r llawr gwaelod fel yr amlinellwyd yn y cynllun gyda'r cais
- Bod gwahaniaethau rhwng rhai o'r manylion a gyflwynwyd yn wreiddiol a'r cais presennol a oedd yn achosi amheuaeth am yr union ddefnydd o'r eiddo gan yr ymgeisydd

- Nid oedd caniatâd cynllunio i'r bar a ddangoswyd yn y cynllun
- Pam bod yr oriau a ofynnwyd i werthu alcohol awr yn hwyrach nag amser i adloniant trwyddedig, gan gofio bod yr ymgeisydd wedi datgan bwriad i gynnal digwyddiadau diwylliannol a thwristaidd.
- Bod y cais i werthu alcohol i mewn ac allan o'r eiddo
- Bod yr amodau a awgrymwyd gan yr ymgeisydd yn rhai, o'i brofiad, yn nodweddiadol i'r rhai yng ngheisiadau clybiau nos a bod hyn yn atgyfnerthu'r pryderon am ddefnydd yr eiddo
- Nid oedd y cais yn cyfeirio at faterion diogelwch a niwsans fyddai'n codi wrth i gwsmeriaid sefyll oddi allan i'r eiddo, ar y ffordd, yn ysmygu
- Nad oedd asesiad sŵn nac arolwg o sŵn wedi eu cyflwyno, a gan bod yr eiddo yn adeilad rhestredig, byddai cyfyngiad ar y gwaith a ellir ei gario allan i rwystro sŵn rhag dianc o'r eiddo
- Bod ansicrwydd beth yn union yw "digwyddiad" y cyfeirir ato yn amod yr heddlu ac na fydd angen staff ar y drws os byddai'r eiddo ar agor i werthu alcohol yn unig
- Nid oedd yn glir beth yn union yw bwriad yr ymgeisydd gan bod peth anghysondeb rhwng beth sydd yn y cais a beth mae'r ymgeisydd yn ddisgrifio fel digwyddiadau fyddai'n cael eu cynnal yn yr eiddo
- Os yw'r ymgeisydd angen cynnal ychydig o ddigwyddiadau diwylliannol a thwristaidd yn ystod y flwyddyn, yna gallai wneud hynny dan y drefn rhybudd o ddigwyddiadau tros dro
- Bod yna gyfraith achos yn cadarnhau y gallai'r Awdurdod Trwyddedu gymryd i ystyriaeth yr aflonyddwch gan gwsmeriaid unwaith y byddant i ffwrdd o'r eiddo
- Y pryderon gan rhai o drigolion Stryd Twll yn y Wal y byddai caniatau'r cais hwn yn ychwanegu at y problemau sy'n bodoli eisoes megis sŵn, pobl yn cwffio, cyfogi, ysmygu ac yn piso ar y stryd yn ogystal a gwydrau gwydr yn cael eu malurio ar y stryd. Cyfeiriwyd hefyd at gerddoriaeth uchel sydd i'w glywed o dafarndai eraill gerllaw sy'n amharu ar fwynderau trigolion y stryd.
- Bod llawer o fynd a dod yn Stryd y Plas yn ystod oriau mân y bore gyda phobl yn creu sŵn wrth adael y tafarndai gerllaw ac yn achosi niwsans i'r trigolion sy'n byw yn y stryd. Cafwyd achlysuron yn ddiweddar gyda bandiau yn ymarfer yn Neuadd y Farchnad ac 'roedd y sŵn a ddeuai oddi yno yn annioddefol. Nodwyd hefyd bod potiau blodau tu allan i rai eiddo yn y stryd wedi eu malurio ar sawl achlysur.
- Y pryderon bod y cais yn gofyn am gynnal y gweithgareddau bob dydd o'r wythnos a bod honiad y byddai'n cael ei droi'n glwb nos.

Wrth gefnogi'r cais ac ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, hysbysodd David Williams, ar ran yr ymgeisydd ei bod yn fwriad i roddi Neuadd y Farchnad ar y llwybr twristaidd (tourism trail) ac i gynnal digwyddiadau diwylliannol a thwristaidd. Ei fwriad yw i'r dref elwa a hefyd tenantiaid adwerthol y neuadd. Cadarnhaodd bod y cais yn berthnasol i'r eiddo fel ag y mae. Pan fyddent mewn sefyllfa i fynd rhagddo gyda'r datblygiad yn y neuadd, a dderbyniodd ganiatâd cynllunio'n ddiweddar, bydd angen cyflwyno cais am drwydded o'r newydd. Nid oes unrhyw fwriad i droi'r eiddo'n glwb nos ac y byddai'n hollol fodlon i dderbyn amodau gan yr Awdurdod Trwyddedu. Nid oedd bwriad chwaith i gael unrhyw weithgareddau ar y llawr cyntaf nac yn y selar. Datganodd bod tenantiaid y siopau'n defnyddio'r rhan agored yng nghanol y neuadd ac ni fuasent felly'n cynnal unrhyw ddigwyddiad trwyddedig yn ystod y dydd. Nid oes unrhyw fwriad i agor ar nosweithiau Gwener, Sadwrn na Sul. Ar hyn o bryd mae chwech digwyddiad arfaethedig, gyda phedwar wedi eu cynnal y llynedd.

Gadawodd cynrychiolydd yr ymgeisydd, cynrychiolydd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rheolwr Trwyddedu, y Swyddog Iechyd Amgylchedd a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – ystyriodd yr is-bwyllgor y ffaith nad oedd gan yr heddlu unrhyw dystiolaeth i wrthwynebu'r cais a'u bod wedi awgrymu amod yn berthnasol i

osod a defnyddio TCC a'r angen i'w hysbysu ymlaen llaw o unrhyw ddigwyddiad. 'Roeddynt yn ystyriol serch hynny o'r ffaith nad oedd yr amod rhybudd yn berthnasol i agor yr eiddo i werthu alcohol pan nad oedd "digwyddiad" ymlaen

- Diogelwch y Cyhoedd – 'roedd yr is-bwyllgor yn bryderus iawn nad oedd asesiad risg tân boddhaol i'r eiddo. O ganlyniad, teimlwyd nad oeddent yn medru bod yn fodlon am ddiogelwch y cyhoedd pe caniateir y drwydded. Ystyriwyd hefyd eglurhad yr ymgeisydd bod y tenantiaid adwerthol oedd yn defnyddio'r eiddo yn ystod y dydd ac ni fyddai gweithgareddau trwyddedig yn digwydd pan oedd y siopau ar agor. Fodd bynnag, mae'r cais am weithgareddau trwyddedig o 09.00 ymlaen saith diwrnod yr wythnos, ac 'roedd rhaid ei ystyried felly. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'r gweithgareddau, yn enwedig presenoldeb pobl yn yfed alcohol, yn cael effaith ar ddiogelwch cwsmeriaid fyddai'n bresennol yn y siopau yn yr eiddo ar yr un adeg. Ar sail yr hyn oedd yn y cais, a'r wybodaeth gyflwynwyd i'r is-bwyllgor, nid oedd yn fodlon felly bod amcan diogelwch cyhoeddus yn cael ei hyrwyddo drwy ganiatau'r drwydded.

  Nid oedd cynigion boddhaol wedi eu cynnig gan yr ymgeisydd ar gyfer delio gyda cwsmeriaid yn sefyll oddi allan i'r eiddo yn ysmygu, yn enwedig gyda'r ffaith bod presenoldeb cwsmeriaid o eiddo gyferbyn yn gwneud yr un peth. Teimlai'r is-bwyllgor y gallai'r sefyllfa fod yn beryglus i gwsmeriaid a defnyddwyr y ffordd.

- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – ystyriodd yr is-bwyllgor bryderon y trigolion cyfagos a oedd wedi cael problemau sŵn gyda band yn ymarfer yn yr eiddo. Cymerwyd i ystyriaeth y natur "agored" yn yr eiddo a oedd yn sicr o greu problemau gyda sŵn. Ymhellach gan fod yr adeilad yn un rhestredig Gradd II, gallai hynny gyfyngu'r gwaith insiwleiddio a ellid ei wneud. Nid oedd arolwg parthed sŵn nac adroddiad acwstig wedi eu cyflawni, ac ni allai'r is-bwyllgor fodloni ei hun na fyddai caniatau'r drwydded yn creu problemau sŵn ac y byddai'n bosibl cymryd camau digonol i liniaru'r problemau pe baent yn codi. 'Roedd yr is-bwyllgor yn ystyriol o'u rôl i atal niwsans cyhoeddus, ac felly ni allent fod yn fodlon y byddai'r amcan trwyddedu hwn yn cael ei hyrwyddo drwy ganiatau'r drwydded.

- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth ynglyn â'r amcan hwn.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r cais am drwydded a chymryd i ystyriaeth yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd, o ystyried Polisi Trwyddedu'r Cyngor, ac ystyried yr amcanion trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003 **penderfynwyd gwrthod y cais yn unol â'r rhesymau a amlinellir uchod, yn enwedig o ochr diogelwch cyhoeddus ac atal niwsans cyhoeddus.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o ddyfarniad yr Is-bwyllgor, gyda chopi i'r rhai oedd wedi gwneud sylwadau, ac eglurodd y byddai gan unrhyw barti yr hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.00pm